

Snowsport Cymru Wales
Pencampwriaethau Sgïo Ysgolion
Cymru
Canolfan Sgïo Llangrannog
8 a 9 Hydref 2022



Annwyl Athro/Athrawes Sgïo/Chwaraeon / Rhiant

Rydym yn gwahodd eich ysgol i gymryd rhan yn ein Pencampwriaethau Sgïo Ysgolion Cymru blynyddol gan Snowsport Cymru Wales. Mae'r digwyddiad hwn yn gyfle delfrydol i blant o bob gallu sgïo gymryd rhan mewn digwyddiad sgïo wedi'i drefnu. Bydd y timau bechgyn a merched sy'n cyrraedd y brig yn cymhwyso i gystadlu ym Mhencampwriaethau Ysgolion Prydain a gynhelir mewn lleoliad i'w gadarnhau.



Rydym yn falch iawn o gael cefnogaeth barhaus ein partner sgïo ysgolion [Select Schools Skiing](https://www.selectschoolskiing.co.uk).

Rhaglen y Digwyddiad

Dyddiad	Digwyddiad	Cofrestru'n Cau
Dydd Sadwrn 8 Hydref 2022	Ysgolion Cynradd	5pm Dydd Llun 3 Hydref
Dydd Sul 9 Hydref 2022	Ysgolion Uwchradd	5pm Dydd Llun 3 Hydref

Amserau'r Digwyddiadau

	Cynradd	MERCHED Uwchradd	BECHGYN Uwchradd
Casglu bibiau rasys	O 2:00pm	O 9:45am	O 12:15pm
Sesiwn gynhesu ac ymarfer	2:30-3:00pm	10:00-10:30am	12:30-1:00pm
Ras (2 ras wedi'u hamseru, gyda'r amser cyflymaf yn cyfrif)	3:15-5:15pm	10:45-11:45am	1:15-2:15pm
Cyflwyno'r gwobrau	5:30pm	12:00pm	2:30pm

Fformat y digwyddiad

Cystadleuaeth slalom dau rediad fydd y digwyddiadau cynradd ac uwchradd. Caiff cwrs ei osod a fydd yn addas i raswyr sgïo ar lefel mynediad. Nod y digwyddiadau hyn yw darparu profiad pleserus i blant oedran ysgol yng Nghymru a chreu mwy o frwdfrydedd yn eu plith.

Mae croeso i sgiwyr unigol a thimau gofrestru i gystadlu. Mae modd creu timau fel a ganlyn:

- 3 neu 4 sgiwr i bob tîm (gyda phawb o'r un ysgol)
- mae modd creu timau cymysg bechgyn a merched ar gyfer Ysgolion Cynradd
- dylai timau Ysgolion Uwchradd gynnwys grwpiau o'r un rhyw

Caiff y canlyniadau cystadlu ar gyfer timau ac unigolion eu cyfrifo fel y nodir yn yr adran 'Amodau Cyffredinol a Gwybodaeth Rasys' atodedig.

Sut i gofrestru

Bydd y gallu i gofrestru ar gyfer y gystadleuaeth yn dod i ben 5 diwrnod cyn y digwyddiad neu'n gynharach os bydd mwy o gofrestrïadau na'n huchafswm. Rhaid cofrestru [ar-lein](https://www.selectschoolskiing.co.uk). Os yw ysgolion yn dymuno cofrestru disgyblion yn uniongyrchol a thalu ffioedd mynediad drwy anfoneb, anfonwch e-bost at: admin@snowsportwales.net

Snowsport Cymru Wales yw'r corff llywodraethu ar gyfer chwaraeon eira yng Nghymru
Mae Snowsport Cymru Wales yn gwmni cyfyngedig trwy warant sydd wedi'i gofrestru yng Nghymru Rhif 2918336. 2918336.
Cyfeiriad Cofrestredig Canolfan Sgïo Caerdydd, 198 Fairwater Rd, Tyllgoed, Caerdydd. CF5 3JR.
Gwefan: www.snowsportwales.co.uk E-bost: admin@snowsportwales.net

Ffôn : 07869 257843

Er mwyn sicrhau lleoedd, mae angen manylion cofrestru cystadleuwyr arnon ni ar gyfer pob plentyn neu dîm, a dylid eu dychwelyd i membership@snowsportwales.net 5 diwrnod cyn y digwyddiad.

Canlyniadau

Caiff y canlyniadau eu cyhoeddi [ar-lein](#) cyn gynted â phosibl ar ôl y digwyddiadau.

Cymhwysedd

Rhaid i gyfranogwyr fod yn sgiwyr cymwys, sy'n gallu defnyddio'r liff t sgïo, troi i'r chwith ac i'r dde, stopio ar y llethr, a gallu rheoli eu cyflymder disgyn. Darperir sesiwn ymarfer ar ddiwrnod y ras gyda slalom syml. Fodd bynnag, rydym yn argymhell bod sgiwyr yn cael rhywfaint o hyfforddiant cyn y digwyddiad. Os oes angen hyfforddiant pellach, cysylltwch â'ch [Clwb](#) neu'ch [Canolfan Sgïo](#) leol am fanylion.

Nodwch fod helmedau'n orfodol i bob cystadleuydd.

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â swyddfa Snowsport Cymru Wales drwy e-bost: membership@snowsportwales.net

Snowsport Cymru Wales yw'r corff llywodraethu ar gyfer chwaraeon eira yng Nghymru

Mae Snowsport Cymru Wales yn gwmni cyfyngedig trwy warant sydd wedi'i gofrestru yng Nghymru Rhif 2918336. 2918336.

Cyfeiriad Cofrestredig Canolfan Sgïo Caerdydd, 198 Fairwater Rd, Tyllgoed, Caerdydd. CF5 3JR.

Gwefan: www.snowsportwales.co.uk E-bost: admin@snowsportwales.net

Ffôn : 07869 257843

Rhaglen Sgïo Ysgolion - Amodau Cyffredinol a Gwybodaeth Rasys

1. Mae'r digwyddiad tîm ar gyfer timau o ddisgyblion dilys o'r un ysgol a chaiff ei gynnal dros ddau rediad ar gwrs slalom llethr artiffisial.

Ysgolion Cynradd

- Caiff canlyniadau cystadlaethau unigolion eu seilio ar eu hamser cyflymaf o ddau rediad ar yr un cwrs.
- Caiff canlyniadau timau eu seilio ar amserau cyfunol y tri sgiwr cyflymaf o bob tîm.

Ysgolion Uwchradd

- Caiff canlyniadau cystadlaethau unigolion eu seilio ar amserau cyfunol dau rediad ar yr un cwrs.
- Caiff canlyniadau timau eu seilio ar y tri sgiwr unigol cyflymaf o rediad 1 wedi'u cyfuno gyda'r tri sgiwr unigol cyflymaf o rediad 2. (Noder bod amserau cymhwyso timau yn gallu bod yn wahanol rhwng rhediad 1 a rhediad 2)

2. Rhaid i dimau ysgolion Uwchradd gynnwys 3 neu 4 bachgen neu 3 neu 4 merch (mae angen o leiaf 3).
Gall timau ysgolion Cynradd fod yn dimau cymysg o 3 neu 4 sgiwr (mae angen o leiaf 3).
3. Derbynnir ffioedd mynediad ar gyfer timau ac unigolion am gost o:

£12.50 y cystadleuydd

Rhaid cofrestru pob cais [ar-lein](#)

Anfonwch ffurflenni manylion cofrestru cystadleuwyr drwy e-bost at:
membership@snowsportwales.net

Os dymunir talu drwy anfoneb i ysgolion sy'n cymryd rhan neu drwy BACS; e-bostiwch geisiadau at: admin@snowsportwales.net

Rhaid i gofrestriadau, gan gynnwys manylion cystadleuwyr, ddod i law erbyn 5pm dydd Llun 3 Hydref 2022.

4. Bydd y ras yn cael ei chynnal o dan reolau FIS fel y'u diwygwyd gan Snowsport Cymru Wales.
5. Rhaid gorchuddio breichiau a choesau, a rhaid gwisgo menig bob amser wrth sgïo.
D.S. Mae helmedau'n orfodol.
6. Bydd pob rhagofal diogelwch rhesymol yn cael ei gymryd. Fodd bynnag, ni ellir dal y trefnwyr na'r lleoliadau yn gyfrifol am anafiadau i raswyr, swyddogion na gwylwyr, nac am ddifrod na cholli offer.
7. Bydd modd llogi sgîs a bŵts ac mae'r rhain wedi'u cynnwys yn y gost. Rhaid i chi roi gwybod i ni ymlaen llaw ar y ffurflen manylion cofrestru cystadleuwyr os oes angen offer.